**Pwyllgor: DATBLYGU ECONOMAIDD EDC-08-99(p3)**

**Dyddiad: 13 Hydref 1999**

**Amser: 9.00 – 12:30**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**

**Teitl: CYMORTH RHANBARTHOL DEWISOL**

## Diben

1 Rhoi brîff i’r pwyllgor ar Gymorth Rhanbarthol Dewisol. Bydd hyn er gwybodaeth yn unig ond dylai fod o gymorth i ddeall sut y mae’r cynllun yn gweithio ac i ddysgu am y materion allweddol.

## Crynodeb

2 Mae’r papur yn disgrifio cefndir statudol y Cymorth Rhanbarthol Dewisol ac yn rhoi gwybodaeth am y mathau o brojectau sydd yn gymwys i gael grant. Mae’n rhestru’r meini prawf y cloriannir y ceisiadau yn eu herbyn, ac mae’n disgrifio’r broses o wneud penderfyniadau. Wedyn, mae’n ystyried y prif faterion sy’n ymwneud â Chymorth Rhanbarthol Dewisol ac yn rhoi’r ystadegau sylfaenol ynghylch y grantiau a roddwyd dros y pum mlynedd diwethaf.

## Amseru

3 Gofynnwyd am y papur hwn er mwyn helpu’r Pwyllgor i ddeall y Cymorth Rhanbarthol Dewisol, sef y prif fodd o roi cymorth ariannol i ddiwydiant.

## Cydymffurfio

4 Rhoddir grantiau Cymorth Rhanbarthol Dewisol i ddiwydiant dan Adran 7 o Ddeddf Datblygu Diwydiannol 1982. Sefydlwyd Bwrdd Ymgynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru dan Adran 13 o Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 i gynnig gwybodaeth i’r Ysgrifennydd Gwladol ar gymorth ariannol i ddiwydiant.

5 Mae’r pwerau o dan Adran 7 ac Adran 13 wedi’u trosglwyddo i’r Cynulliad, ac o dan y Gorchymyn Trosglwyddo mae grantiau dan Adran 7 wedi’u rhyddhau o gyfyngiadau’r Trysorlys. Mae’r awdurdod i weithredu’r cynllun Cymorth Rhanbarthol Dewisol a threfnu cyfarfodydd Bwrdd Ymgynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru wedi’i ddirprwyo i’r Ysgrifennydd dros Ddatblygu Economaidd a’r swyddogion.

6 Dim ond ceisiadau am grantiau sy’n fwy na £250,000 y bydd y Bwrdd yn eu hystyried. Dirprwywyd unrhyw benderfyniadau ar geisiadau am lai na hyn i’r swyddogion. Nid oes unrhyw reidrwydd ar yr Ysgrifennydd dros Ddatblygu Economaidd, nac ar y Prif Ysgrifennydd, i dderbyn y cyngor hwn, ond o dan Adran 13 byddai’n rhaid iddynt wneud datganiad i’r Cynulliad yn esbonio’u rhesymau dros beidio â gwneud, pe bai’r bwrdd yn gofyn.

**Y Cefndir i'r Cymorth Rhanbarthol Dewisol**

7 Mae Cymorth Rhanbarthol Dewisol yn gynllun dewisol sy'n rhoi grantiau i ddiwydiant er mwyn cynorthwyo i dalu costau cyfalaf project buddsoddi. Y sail statudol ar gyfer hyn yw Adran 7 o Ddeddf Datblygu Diwydiannol 1982. Dyma'r prif fath o gymhelliant ariannol a gynigir i ddiwydiant er mwyn hybu buddsoddiad a thwf yng Nghymru. Y nod yw lleihau gwahaniaethau o ran cyflogaeth rhwng ardaloedd sy'n derbyn cymorth a'r rhai nad ydynt yn derbyn cymorth.

8 Gall y cyfan bron o fusnesau sy'n buddsoddi mewn gweithgynhyrchu wneud cais am grant, ac felly hefyd lawer o'r rheini yn y diwydiannau gwasanaeth sy'n gweithredu y tu hwnt i'r farchnad leol. Prin iawn y bydd manwerthu yn gymwys. Mae'r Gymuned Ewropeaidd yn cyfyngu ar y cymorth mewn rhai diwydiannau lle y gall gorgynhyrchu ddigwydd, gan gynnwys ffibr artiffisial, adeiladu a thrwsio llongau, cerbydau, haearn a dur, glo a rhai cynhyrchion ar gyfer amaethyddiaeth a physgodfeydd.

9 Asesir yr holl geisiadau am Gymorth Rhanbarthol Dewisol yn erbyn y meini prawf canlynol:

**Lleoliad** – rhaid i bob project fod mewn Ardal sy'n derbyn Cymorth

**Angen** – rhaid i'r ymgeisydd ddangos na fyddai'r project yn gallu mynd yn ei flaen yn y ffordd a ragwelwyd o safbwynt ei natur, ei leoliad, ei amseriad neu ei leoliad oni bai am y grant. Gall hyn fod er mwyn goroesi bwlch o ran cyllid, neu i leihau risgiau cysylltiedig, neu i ddylanwadu ar y lleoliad a ddewisir, neu i gyflawni meini prawf buddsoddi'r rhiant-gwmni.

**Swyddi** – rhaid i'r project greu neu ddiogelu swyddi. Er hynny ni roddir cymorth os y cwbl a wna hynny fydd arwain at orddarparu a, thrwy hynny, ddiweithdra mewn rhannau eraill o'r DU, neu symud swyddi o un rhan o'r wlad i'r llall.

**Dichonoldeb** – rhaid i'r project fod ag argoelion da o fedru cynnal ei hunan o fewn cyfnod eithaf rhesymol.

**Buddsoddiad** – rhaid i'r project gynnwys gwariant cyfalaf ar eiddo, neu beiriannau, boed newydd neu ail law. Nid yw prynu offer cyfalaf newydd yn lle hen offer, a hynny fel mater o drefn, yn gymwys. Nid yw cyfalaf gweithredol ychwaith yn gymwys, er y gellir ei gymryd i ystyriaeth wrth bennu'r angen am gymorth.

**Ymrwymiadau blaenorol** – ni chynigir Cymorth Rhanbarthol Dewisol ond pan fo'n gwneud gwahaniaeth a yw project yn mynd yn ei flaen neu beidio. Oherwydd hynny, ni ddylid rhoi unrhyw ymrwymiad i broject, ac ni ddylid gwario arno, hyd nes y rhoddir cynnig o Gymorth Rhanbarthol Dewisol.

**Cyllid arall** – dylai'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer project ddod o gronfeydd yr ymgeisydd neu o ffynonellau eraill yn y sector preifat. Bydd angen i'r ymgeiswyr ddangos eu bod wedi archwilio'r ffynonellau hyn yn llawn cyn gwneud cais am Gymorth Rhanbarthol Dewisol. Cymerir unrhyw gymorth arall o'r sector cyhoeddus i ystyriaeth wrth asesu lefel y grant y gellir ei thalu heb fynd yn groes i derfynau'r UE.

10 Bydd y grant a gynigir yn cyfateb i'r lleiafswm y credir sy'n angenrheidiol ar gyfer galluogi'r project i fynd rhagddo ac fe'i telir, fel arfer, mewn rhandaliadau sy'n cyfateb yn fras i'r gwariant cyfalaf a'r effaith ar nifer y swyddi. Er hynny, ni all y grant a gynigir fod yn fwy na'r terfynau a bennir gan yr UE ar gyfer y ganran uchaf o wariant cyfalaf cymwys. Ceir hefyd gyfyngiadau ar y gost fesul swydd a gytunir gan yr Adrannau gweithredol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban (mae'r terfynau hyn yn uwch mewn Ardal Ddatblygu nag ydynt mewn Ardal Ganolradd, ac fe'u pennwyd ar gyfer cyflwyno map o Ardaloedd sy'n derbyn Cymorth ym 1993. Nid yw'r trefniadau ar gyfer Cymorth Rhanbarthol Dewisol pan gyflwynir y map newydd ar 1 Ionawr 2000 wedi'u cwblhau eto). Nid yw'r terfynau ar gost yn ôl swyddi wedi'u cyhoeddi eto er mwyn osgoi dylanwadu ar drafodaethau gyda chwmnïau.

11 Dim ond ceisiadau am grantiau sy'n fwy na £250,000 y bydd y Bwrdd yn eu hystyried. Dirprwywyd unrhyw benderfyniadau ar geisiadau am lai na hyn i'r swyddogion. Nid oes unrhyw reidrwydd ar yr Ysgrifennydd dros Ddatblygu Economaidd i dderbyn cyngor Bwrdd Ymgynghorol Datblygu Economaidd Cymru, ond o dan Adran 13 byddai'n rhaid iddo wneud datganiad i'r Cynulliad gan esbonio'i resymau dros beidio â gwneud, pe bai'r Bwrdd yn gofyn. Mae'r pwerau o dan Adran 7 ac Adran 13 wedi'u trosglwyddo i'r Cynulliad, ac o dan y Gorchymyn Trosglwyddo mae grantiau o dan Adran 7 wedi'u rhyddhau o gyfyngiadau'r Trysorlys. Mae'r awdurdod i weithredu'r cynllun Cymorth Rhanbarthol Dewisol, i benodi aelodau o Fwrdd Ymgynghorol Datblygu Economaidd Cymru, a threfnu cyfarfodydd o'r Bwrdd hwnnw wedi'i ddirprwyo i'r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd a'r swyddogion.

12 Yng Nghymru yn ystod y cyfnod pum-mlynedd o 1 Ebrill 1994 i 31 Mawrth 1999, cafwyd 793 cynnig o grant, sef cyfanswm o tua £366 miliwn, Disgwylir y bydd hyn o gymorth i greu mwy na 41,500 o swyddi newydd, i ddiogelu 15,300 o swyddi sydd eisoes yn bod, ac i hybu buddsoddiad o bron i £4,200 miliwn o'r sector preifat (gweler Atodiad A). Yn ystod y cyfnod hwn, nid oes un project wedi'i wrthod ar sail diffyg cyllid.

13 Mae'r union adeg y bydd y grant yn daladwy yn dibynnu ar ba bryd yn union y bydd y projectau yn dechrau, a'r gallu i wneud cynnydd priodol tuag at y buddsoddiad a'r targedau o ran swyddi a nodir yn y llythyr cynnig. Bydd nifer o'r projectau yn methu dilyn yr amserlen wreiddiol. Felly telir y grant yn ôl y galw, ac yn unrhyw flwyddyn ariannol benodol telir grant sy'n deillio o gynigion a wnaed mewn blynyddoedd cynt. Felly, wrth gyflwyno ystadegau, yr arfer yw defnyddio data ar gynigion yn hytrach nag ar daliadau, er mwyn osgoi dryswch.

14 Ym 1998-99 gwariwyd £79.9 miliwn ar grantiau, a'r ddarpariaeth ar gyfer y flwyddyn gyfredol yw £63 miliwn. Yn seiliedig ar ein hamcangyfrif gorau o'r rhandaliadau a fydd yn daladwy ym 1999-2000, gall y galw am daliadau fod tua £3-4 miliwn yn fwy na hyn. Pan fydd yr amcangyfrif o'r gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn edrych yn debygol o fod yn fwy na hyn, cymerir camau o fewn telerau Rheol Sefydlog 19.

**Materion**

**a) Mewnfuddsoddi v. buddsoddi cynhenid.**

15 Nid yw'r cynllun yn gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o ymgeiswyr, ac mae ar gael yn yr un modd i fusnesau newydd ac i'r rhai sydd eisoes wedi ennill eu plwyf, boed y rheini'n rhai tramor neu'n rhai cynhenid.

Er hynny, mae mewnfuddsoddiadau o dramor wedi cael proffil uwch, ac mae'r buddsoddiadau mawr o dramor yn tueddu i gyrraedd y tudalennau blaen. Ond o 1994-5 i 1998-99, mae bron i 99% o'r cynigion wedi bod yn rhai i fuddsoddwyr cynhenid (gan gynnwys mentrau sy'n eiddo i gwmni DU sy'n gweithredu yng Nghymru). Mae hyn yn cynrychioli ychydig dros draean o gyfanswm y grant a gynigir, a dylai fod o gymorth i greu dros 19,300 o swyddi newydd ac i ddiogelu bron i 4,700 o swyddi gyda buddsoddiad o dros £750 miliwn. Mae hyn yn cyfateb yn fras i ryw 46% o'r swyddi newydd, 31% o'r swyddi a ddiogelwyd, ac 18% o'r buddsoddiad cyfalaf disgwyliedig.

**b) Cynorthwyo Busnesau bach**

16 Mae busnesau bach a chanolig (SMEs) yn chwarae rhan bwysig iawn yn economi Cymru. Mae dros 62,000 o'r cwmnïau hyn yng Nghymru a, gyda'i gilydd, maent yn cyflogi dros 625,000 o bobl. Mae hyn yn cynrychioli bron i ddwy ran o dair o weithwyr Cymru. Gall fod angen cymorth ar fusnesau bach a chanolig, yn ogystal â'r cwmnïau mawr, i'w hannog i fuddsoddi mewn ardaloedd sy'n derbyn cymorth, a gall fod gan y cwmnïau bach a chanolig yr un hawl iddo â'r cwmnïau mawr. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, roedd 25% o'r cynigion hyn yn rhai am symiau llai na £25,000, ac roedd 52 y cant ohonynt

am symiau llai na £250,000.

17 Yn y Ffordd i Ffyniant, cafwyd ymrwymiad eglur i symleiddio proses y Cymorth Rhanbarthol Dewisol ar gyfer busnesau bach. Mae gweithdrefnau symlach eisoes wedi'u cyflwyno ar gyfer cloriannu'r ceisiadau am Gymorth Rhanbarthol Dewisol sy'n llai na £100,000, ond yr ydym yn parhau i ystyried pa newidiadau y gellir eu gwneud i'r gweithdrefnau talu. Yr ydym yn canolbwyntio ar gamau a fydd yn lleihau'r baich ar gwmnïau llai ac yn sicrhau y gwneir y taliadau ynghynt. Yr ydym hefyd yn ystyried a ellir symleiddio'r gweithdrefnau gwerthuso ymhellach. Er hynny, mae angen inni sicrhau bod arian cyhoeddus yn derbyn gofal priodol. Gall cwtogi ar ein gweithdrefnau monitro presennol arwain at gynnydd mewn risg.

c) Y Gorllewin a'r Cymoedd

18 Bydd ardaloedd y Cymoedd a'r Gorllewin yn cael statws Amcan 1 er cydnabyddiaeth o'u lefel isel o CMC y pen. Mae'n bwysig, felly, i ddenu buddsoddi i'r ardaloedd hyn a chreu swyddi newydd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf yr ydym wedi gweld cynnydd yn nifer y cynigion o Gymorth Rhanbarthol Dewisol yn yr ardaloedd hyn o flaenoriaeth. Yn ystod y cyfnod 1994-95 i 1998-99 yr oedd bron i ddwy ran o dair o'r cynigion a wnaed yn rhai i'r ardaloedd hyn. Yr oedd cyfanswm y cynigion ychydig dros hanner yr holl grant a gynigiwyd.

19 Mae swyddogion yn cynnal rhaglen codi ymwybyddiaeth yn y Gorllewin a'r Cymoedd er mwyn rhoi gwybod i gwmnïau am fodolaeth rhaglenni cymorth y Llywodraeth i'r ardaloedd hyn. Y nod yw sicrhau rhagor o gynnydd yng nghyfran y projectau sydd wedi'u lleoli yn yr ardaloedd hyn a helpu i ledu buddsoddi ymhellach i'r Gorllewin. Fel rhan o'r fenter hon, sefydlwyd Swyddfa De-Orllewin Cymru ar gyfer yr Adran Datblygu Diwydiannol, tebyg i'r un a sefydlwyd ym Mae Colwyn ar gyfer y Gogledd. Mae'r swyddfa yn rhoi cyngor/cymorth ar raglenni cymorth diwydiannol y llywodraeth, sef yn bennaf Cymorth Rhanbarthol Dewisol. Mae hefyd yn darparu gwasanaethau masnach tramor.

d) Gwerthuso'r Cymorth Rhanbarthol Dewisol

20 Mae wedi bod yn ofyniad gan y Trysorlys fod pob rhaglen sy'n cynnwys mwy na £0.5 miliwn o wariant cyhoeddus yn gorfod cael ei gwerthuso o dro i dro i sicrhau ei bod yn cynnig gwerth am arian. Mae gwerthusiad o'r Cymorth Rhanbarthol Dewisol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ar gyfer y cyfnod o 1991 i 1995. Mae'r gwerthusiad yn cwmpasu Cymru, Lloegr a'r Alban ac mae'n cael ei arwain gan yr Adran Masnach a Diwydiant. Disgwyliwyd cael yr adroddiad terfynol ynghynt eleni ond nid yw wedi'i gwblhau eto. Bydd yn cael ei ddefnyddio er gwybodaeth ar gyfer polisi'r Cymorth Rhanbarthol Dewisol tuag at y dyfodol.

e) Concordatiau

21. Mae Cymorth Rhanbarthol Dewisol wedi'i weithredu yn Lloegr, yr Alban a Chymru o dan gyfres o ganllawiau y cytunwyd arnynt gyda'r Trysorlys. Erbyn hyn, gall y Cynulliad arfer y pwerau o dan Adran 7 o'r Ddeddf Datblygu Diwydiannol a chawsant eu rhyddhau o gyfyngiadau'r Trysorlys. Felly, mae swyddogion wedi bod yn cydweithio ag Adrannau eraill o'r Llywodraeth er mwyn penderfynu ar drefniadau ar gyfer y dyfodol.

22. Datblygwyd Concordat amlochrog ar Gymorth Ariannol i Ddiwydiant rhwng yr Adran Masnach a Diwydiant, y Trysorlys, yr Adran Cyflogaeth, Masnach a'r Rhanbarthau, Swyddfa Dramor y Gymanwlad a'r gweinyddiaethau datganoledig. Mae'r Concordat hwn hefyd yn ymwneud â'r trefniadau ar gyfer ymdrin â buddsoddiadau symudol mawr a dylai sicrhau trefniadau cydlynol i osgoi "bidio uwch" rhwng rhanbarthau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd.

23. Mae'r Concordat yn nodi fframwaith eang o drefniadau i'w hategu gan ganllawiau gweithredu manwl, ac fe'i cyhoeddwyd ar 1 Hydref 1999. Mae trafodaethau ar y canllawiau manwl a fydd yn ategu'r Concordat yn dal i barhau. Y nod yw sicrhau cysondeb wrth weithredu cymorth ariannol i ddiwydiant ledled Prydain.

**f) Ailganolbwyntio Cymorth Rhanbarthol Dewisol a'r map newydd o Ardaloedd sy'n Derbyn Cymorth**

24. Roedd y Papur Gwyn ar Gystadleugarwch a gyhoeddwyd gan yr Adran Masnach a Diwydiant ym mis Rhagfyr 1998 yn cyflwyno ymdriniaeth ledled y DU ar gyfer gwella cystadleugarwch mewn diwydiant. Roedd hyn yn cynnwys cynigion i ailganolbwyntio Cymorth Rhanbarthol Dewisol ar brojectau o ansawdd uwch. Mae'r gwaith ar gwblhau'r meini prawf ar gyfer mesur ansawdd yn parhau.

25. Mewn theori gallai'r gweinyddiaethau sydd wedi'u datganoli fabwysiadu eu trefniadau eu hunain ar gyfer Cymorth Rhanbarthol Dewisol gan ei fod yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Er hynny, ni fyddai gweithredu ar ein pennau ein hunain yn fater o ffurfioldeb yn unig. Byddai angen trafod unrhyw gynnig o'r fath gyda'r Adrannau gweithredol eraill, o dan y trefniadau ymgynghorol eraill a gyflwynwyd gan y Concordat ar Gymorth Ariannol i Ddiwydiant, a byddai'n rhaid derbyn cytundeb y Comisiwn Ewropeaidd. Hefyd, byddai angen i'r Cynulliad ystyried goblygiadau ariannol unrhyw newidiadau er mwyn sicrhau eu bod yn cynnig gwerth am arian.

26. Felly, er bod trefniadau gwahanol yn bosibilrwydd, mae swyddogion yn gweithio i geisio datblygu canllawiau cyffredin cytûn ar gyfer y cynllun grant a thrwy hynny, cynnal ymagwedd gyffredin yng Nghymru, yr Alban a Lloegr. Byddai nifer o fanteision i hyn, gan gynnwys gwaith cydlynol ar brojectau buddsoddi symudol mawr.

27. Mae'r gwaith hwn ar gytuno ar ganllawiau cyffredin ar gyfer Cymorth Rhanbarthol Dewisol yn gysylltiedig â chytuno ar y canllawiau ar gyfer y Concordat. Bydd y ddwy set o ganllawiau yn ymdrin â gweithredu'r meini prawf ansawdd, y terfynau mewnol a fydd yn gymwys i lefel y grant y gellir ei gynnig, lefel gyffredinol y gefnogaeth y gellir ei chynnig gan gynnwys cyllid gan gyrff cyhoeddus eraill, a'r trefniadau ar gyfer sicrhau cydweithio didrafferth yn y dyfodol rhwng yr Adrannau gweithredol. Gan fod y canllawiau hyn yn cynnwys cyngor ar gyd-drafod grantiau i ddiwydiant, sef mater sy'n gyfrinachol yn fasnachol i'r Adrannau o dan sylw, ni fyddant yn cael eu cyhoeddi.

28. Dylai'r map newydd o Ardaloedd sy'n Derbyn Cymorth ddod i rym ar 1 Ionawr 2000. Mae angen cytuno ar y ffordd ymlaen ar gyfer y ddwy set o ganllawiau mewn pryd i ganiatáu i'r trefniadau newydd gael eu gweithredu ar yr un adeg â chyflwyno'r map newydd. Gan y bydd hyn yn cynnwys cyfnod o ymgynghori â'r Comisiwn Ewropeaidd ar y cynigion newydd ar gyfer y ffordd y bydd y cynllun Cymorth Rhanbarthol Dewisol yn gweithio, mae'r amserlen o ran gosod y cwbl ar waith erbyn 1 Ionawr yn dynn iawn ond disgwylir y bydd y targed hwn yn cael ei gyrraedd.

29. Mae swyddogion hefyd yn ystyried pa newidiadau y gellir eu gwneud i'r cynllun hwn ac i gynlluniau grant eraill i gynorthwyo busnesau bach yn yr ardaloedd blaenoriaeth ac i wneud y defnydd gorau o'r statws Amcan Un a ddyfarnwyd i'r Gorllewin ac i'r Cymoedd.

**Manylion y Cynigion a wnaethpwyd yn y Gorffennol**

30. Mae crynodeb o'r cynigion a wnaethpwyd ar gyfer y cyfnod 1994-95 hyd 1998-99 ar gael yn Atodiad A. Mae hyn yn dangos y cyfansymiau ar gyfer y cyfnod pum-mlynedd, y rhaniadau rhwng buddsoddwyr cynhenid a mewnfuddsoddwyr a chwmnïau mawr a bach, a chanran y cynigion oedd mewn ardaloedd â blaenoriaeth.

31. Mae gwybodaeth fanwl ar Gymorth Rhanbarthol Dewisol yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn mewn Adroddiad Blynyddol, yn ôl gofynion Deddf Datblygu Diwydiannol 1982. Mae'r broses o gynhyrchu'r adroddiadau hyn sy'n cynnwys Lloegr, Cymru a'r Alban, wedi'i chydlynu gan yr Adran Masnach a Diwydiant. Gosodwyd yr adroddiad yn ymdrin â'r flwyddyn hyd at 31 Mawrth 1999 gerbron y Senedd ym mis Gorffennaf a bydd copïau o'r adroddiad a gyhoeddwyd yn cael eu dosbarthu i aelodau pan fyddant ar gael.

32. Mae tabl crynhoi, sy'n defnyddio data wedi'i dalgrynnu, o Adroddiad Blynyddol drafft 1999 ar gael yn Atodiad B. Efallai bydd aelodau yn dymuno nodi llwyddiant parhaus Cymru o safbwynt denu buddsoddiad i mewn i Gymru a chreu swyddi newydd ar lefelau uwch na'r gyfran y gellir ei disgwyl o

ran maint ei phoblogaeth.

**Camau ar gyfer y Pwyllgor**

33. Nid oes angen unrhyw gamau penodol; mae’r papur hwn er gwybodaeth yn unig.

**Man Cyswllt**

34. Yr Adran Datblygu Diwydiannol

Atodiad A

**CYMORTH RHANBARTHOL DEWISOL YNG NGHYMRU: CRYNODEB O’R BLYNYDDOEDD 1994-95 HYD 1998-99**

| | Cyfanswm | Cwmnïau â pherchnogion DU | Cwmnïau heb berchnogion DU | Cwmnïau â mwy na 200 o weithwyr | Cwmnïau â hyd at 200 o weithwyr | Ardaloedd Blaenoriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y Projectau | 793 | 78.6% | 21.4% | 29.8% | 70.2% | 64.7% |
| Cyfanswm y Grant a gynigiwyd | £366m | 33.9% | 66.1% | 84.6% | 15.4% | 53.3% |
| Buddsoddiad Arfaethedig Ychwanegol | £4,196m | 18.0% | 82.0% | 91.3% | 8.7% | 26.7% |
| Swyddi newydd i’w creu | 41,648 | 46.5% | 53.5% | 72.7% | 27.3% | 48.9% |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y swyddi i gael eu diogelu | 15,325 | 30.6% | 69.4% | 87.8% | 12.2% | 57.5% |
| Cost bob swydd | £6,418 | £5,151 | £7,344 | £7,076 | £4,247 | £6,677 |
| Gwariant Grant (*) | £257m | 38.6% | 61.4% | | | |

(*) Data o'r Adroddiadau Blynyddol ar gyfer 1995-96 hyd 1998-99, nid oes data cynharach ar gael.

## Atodiad B

**CYMORTH RHANBARTHOL DEWISOL : CYNIGION A DDERBYNIWYD 1995-96 HYD 1998-99**

| Gwlad | Blwyddyn ariannol | Rhif | Gwerth (£miliwn) | Costau Project Cysylltiedig (£miliwn) | Rhagolwg o'r swyddi i'w creu | Rhagolwg o'r swyddi i'w diogelu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Prydain Fawr | 1995-96 | 1,770 | 307 | 3,661 | 40,600 | 18,700 |
| | 1996-97 | 1,538 | 420 | 3,808 | 47,800 | 24,800 |
| | 1997-98 | 1,342 | 468 | 6,505 | 56,100 | 21,100 |
| | 1998-99 | 1,210 | 252 | 2,313 | 34,800 | 13,700 |
| Yr Alban | 1995-96 | 207 | 93 | 790 | 9,000 | 3,500 |
| | 1996-97 | 207 | 150 | 932 | 12,600 | 4,300 |
| | 1997-98 | 232 | 187 | 2,847 | 19,400 | 3,300 |
| | 1998-99 | 216 | 73 | 455 | 9,000 | 2,500 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 1995-96 | 177 | 59 | 562 | 6,500 | 3,600 |
| | 1996-97 | 181 | 106 | 1,102 | 11,000 | 5,700 |
| | 1997-98 | 141 | 113 | 1,828 | 12,200 | 2,400 |
| | 1998-99 | 121 | 50 | 442 | 7,600 | 1,500 |
| Lloegr | 1995-96 | 1,386 | 155 | 2,308 | 25,100 | 11,600 |
| | 1996-97 | 1,150 | 164 | 1,774 | 24,200 | 14,900 |
| | 1997-98 | 969 | 169 | 1,830 | 24,500 | 15,500 |
| | 1998-99 | 873 | 129 | 1,417 | 18,300 | 9,600 |